

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(i'w lenwi gan Uned y Gymraeg):</i> 05/03/2018			
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Catrin Davies			
Dyddiad:	20 Tachwedd 2018			
Arweinydd y polisi:	Catrin Davies			
Manylion cyswllt:	Catrin.Davies@llyw.cymru 03000 250037			
Math o Raglen/Prosiect				
<input type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen			
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad			
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau			
<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau			
<input type="checkbox"/> Seilwaith				
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf				
<input type="checkbox"/> TGCh				
<input type="checkbox"/> Arall (nodwch isod)				
Costau: Beth yw'r cost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25k - £49k	£50k - £249K	£250K - £1miliwn	Dros £1miliwn
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?				
Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)				
<p>Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â datblygu'r Bil a'i hynt drwy brosesau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol i hwyluso'r broses o rannu data perthnasol er mwyn datblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysra mewn perthynas â Chynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig). Bydd y system ymgeisio a gwirio cymhwysra yn gwbl ddwyieithog, a chaiff ei gweithredu gan gyfeirio at ofynion Safonau'r Gymraeg a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo'r Gymraeg ac ar fynediad i wasanaethau yn Gymraeg.</p>				
Ystyriwyd pum opsiwn ar gyfer darparu system ymgeisio a gwirio cymhwysra				

genedlaethol, ynghyd â'r costau cysylltiedig, yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil. Roedd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cymryd yn ganiataol y byddai pob un o'r systemau yn cael eu datblygu'n ddwyieithog, ac nid yw'n clustnodi union gostau darparu'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg. Mae'r Aseiad yn nodi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel dewis asiant gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y system. Gan y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gweithredu'r system ar ran Gweinidogion Cymru, bydd Safonau'r Gymraeg yn berthnasol.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flywyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Cyflwyno'r Bil	Ebrill 2018
Dadl Cyfnod 1	Medi 2018
Trafodion Cyfnod 2	Hydref 2018
Trafodion Cyfnod 3	Rhagfyr 2018
Dadl Cyfnod 4	Rhagfyr 2018
Cydsyniad Brenhinol	Ionawr 2019

*Mae'r union amseru yn dibynnu ar amserlen Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyma'r amserlen ddisgwyliedig ar hyn o bryd ar gyfer cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant:

- Medi 2017 - dechrau blwyddyn gyntaf y cyfnod gweithredu cynnar;
- Medi 2018 - dechrau ail flywyddyn y cyfnod gweithredu cynnar;
- Medi 2019 - dechrau trydedd flywyddyn y cyfnod gweithredu cynnar;
- Medi 2020 - cyflwyno'r Cynnig yn llawn ledled Cymru.

Dechreuodd y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar ym mis Medi 2017 yn Sir Fôn, Gwynedd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Ers Medi 2018, mae Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Wrecsam a Conwy a Thorfaen wedi ymuno â'r awdurdodau hyn, ac ymunodd Caerdydd ym mis Hydref 2018. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynnig mewn awdurdodau eraill yn 2019.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hwyluso'r

broses o rannu data perthnasol er mwyn datblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwystra mewn perthynas â'r Cynnig. System ar-lein fydd hon yn bennaf er y bydd modd gwneud cais all-lein hefyd, a bydd llinell gymorth benodedig ar gael.

Prif ffocws y Bil yw ei gwneud yn bosibl casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwystra person ar gyfer y Cynnig. I'r perwyl hwn, bydd yn ei gwneud yn bosibl i adrannau perthnasol Llywodraeth y DU rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru at ddibenion dyfarnu cymhwystra person a throsglwyddo'r data perthnasol a'r dyfarniadau yn ôl y gofyn. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn bosibl (drwy reoliadau a wnaed o dan y Bil) sefydlu trefniadau i osod cosbau mewn sefyllfaoedd lle mae ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu'n ymddwyn yn anonest. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl gwneud darpariaeth i ymgeiswyr allu gofyn am adolygu cosb neu benderfyniad ynghylch eu cymhwystra, a chreu proses ar gyfer apelio yn erbyn cosb neu benderfyniad ynghylch cymhwystra.

Ystyriwyd pum opsiwn ar gyfer darparu system ymgeisio a gwirio cymhwystra genedlaethol, ynghyd â'r costau cysylltiedig, yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil. Mae'r Aseiad yn nodi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel dewis asiant gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y system.

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi eisoes wedi datblygu system o'r fath ar gyfer cynllun Gofal Plant Di-dreth y DU, sydd eisoes wedi'i haddasu i ofynion Cynnig Gofal Plant 30 awr Lloegr. Y bwriad yw addasu'r system hon i'w gwneud yn addas i anghenion cynnig Cymru.

Mae nifer o fanteision i system Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gan gynnwys:

- ei gwneud yn bosibl cynnal gwiriadau cymhwystra yn erbyn data amser real;
- darparu system a dull gweithredu cyson ledled Cymru;
- rhoi penderfyniadau cyflym i rieni ynghylch p'un a ydynt yn gymwys ai peidio.

Amcanion polisi

Amlinellwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cynnig yn *Symud Cymru Ymlaen*¹ ac roedd *Ffyniant i Bawb*² yn ymhelaethu arno. Mae'r *Cynllun Gweithredu Economaidd*³ hefyd yn sôn am y Cynnig.

Fel y nodwyd yn *Ffyniant i bawb*, mae'r Cynnig yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu:

"30 awr o addysg a gofal plant am ddim ar draws Cymru i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, a'i gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i swyddi a'u cadw".

¹Llywodraeth Cymru - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021
<http://llyw.cymru/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

² Llywodraeth Cymru - Ffyniant i bawb: y Strategaeth Genedlaethol :
<http://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

³ Llywodraeth Cymru - Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd
<http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>

Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol i addysg gynnar, sy'n darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg am ddim i bob plentyn 3 a 4 oed yn ystod y tymor ysgol, o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Yn ogystal, bydd rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio yn gymwys ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed:

- lle mae'r ddau riant yn gweithio neu lle mae'r unig riant mewn teuluoedd unig rieni yn gweithio;
- lle mae'r ddau riant yn ennill, ar gyfartaledd, cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol;
- lle mae rhieni'n hunangyflogedig neu ar gontractau dim oriau, ar yr amod bod eu henillion cyfartalog dros gyfnod o 3 mis yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion.

Ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod gweithredu cynnar, nid oedd cap ar enillion mewn perthynas â chymhwysra person i gael y gofal plant a gyllidir. Ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod gweithredu cynnar, cytunwyd, os yw o leiaf un riant ar yr aelwyd yn ennill £100,000 neu fwy'r flwyddyn, na fydd y teulu hwnnw'n gymwys i fanteisio ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig. Mae'n debygol y bydd y polisi hwn yn parhau pan gyflwynir y ddarpariaeth yn genedlaethol.

Oherwydd bod sawl math gwahanol o deulu a bod eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau yn gallu bod yn gymhleth weithiau, bydd y cyllid ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill gan gynnwys:

- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb riant, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol;
- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol;
- lle mae un riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ac un riant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a geir am ofalu. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd lle mae un riant yn bodloni'r meini prawf cymhwysra a'r riant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:
 - Budd-dal analluogrwydd
 - Lwfans gofalwyr
 - Lwfans anabledd difrifol
 - Lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n seiliedig ar incwm
- yn y 12 mis cyntaf lle mae riant newydd ddod yn hunangyflogedig ac y mae eu

busnes of fewn y cyfnod dechrau cychwynnol. Bydd angen i rieni gofrestru'r busnes gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys; ond ni fydd angen iddynt fodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion yn ystod y cyfnod hwn;

- ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau, lle maent yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried? Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Prif ffocws y Bil yw ei gwneud yn bosibl casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwysra person ar gyfer y Cynnig. Bydd yn hwyluso'r broses o rannu data perthnasol er mwyn datblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysra mewn perthynas â'r Cynnig. System ar-lein fydd hon yn bennaf er y bydd modd gwneud cais all-lein hefyd, a bydd llinell gymorth benodedig ar gael.

Ystyriwyd pum opsiwn ar gyfer y broses ymgeisio a gwirio cymhwysra, ac mae'r rhain wedi'u hesbonio'n fanylach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil. Dyma'r pum opsiwn:

1. Bod Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau a bod unigolion sy'n gweithio i'r Llywodraeth yn mynd ati i wirio cymhwysra'r ymgeiswyr, gan gyfeirio apelau i un o'r Tribiwnlysoedd Datganoledig neu i Banel Apelau.
2. Bod awdurdodau lleol yn derbyn ceisiadau, bod unigolion sy'n gweithio i'r awdurdodau yn mynd ati i wirio cymhwysra'r ymgeiswyr (yr opsiwn gwneud dim) ac yn sefydlu proses apelau.
3. Bod trydydd parti a gaiff ei gontractio yn derbyn ceisiadau, yn gwirio cymhwysra ac yn sefydlu proses apelau.
4. Bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn ceisiadau, yn cynnal gwiriadau cymhwysra ac yn cyfeirio apelau i Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (fel sy'n digwydd yn Lloegr mewn perthynas â'u Cynnig nhw).
5. 10 Awdurdod Gweithredu'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra ar ran pob awdurdod lleol.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

Mae cysylltiad agos rhwng y Bil a'r Cynnig ac amcanion *Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr*⁴, ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith bob dydd. Mae'r strategaeth hon a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi bod y Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.

⁴ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?lang=cy>

Dyma ddau o dargedau cyffredinol Cymraeg 2050:

- bod nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050; a
- bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Bydd y system ymgeisio a gwirio cymhwysra arfaethedig ar gael yn y Gymraeg a bydd hyn yn cynnig rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

hy siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Prif ffocws y Bil yw ei gwneud yn bosibl casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwysra person ar gyfer y Cynnig. Bydd yn hwyluso'r broses o rannu data perthnasol er mwyn datblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysra mewn perthynas â'r Cynnig ac, i raddau helaeth, mae'n cyflawni pwrpas technegol. Bydd effeithiau'r ddeddfwriaeth, felly, i'w gweld yn y ffordd y caiff y system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysra ei chynllunio a'i gweithredu. System ar-lein fydd hon yn bennaf er y bydd modd gwneud cais all-lein hefyd, a bydd llinell gymorth benodedig ar gael.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ynghyd â'r Bil yn nodi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel dewis asiant gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y system. Bydd y safonau cyflenwi gwasanaethau a nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn berthnasol, a byddant felly yn disodli unrhyw ymrwymadau yng Nghynllun Iaith Gymraeg Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Bydd hyn yn cynnwys safonau'n ymwneud â gohebiaeth, galwadau ffôn, cyhoeddusrwydd a hysbysebu, darparu gwybodaeth a ffurflenni, gwefannau a gwasanaethau ar-lein, cadw cofnodion a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes mewn trafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch goblygiadau Safonau'r Gymraeg o ran darparu gwasanaethau.

Drwy gymhwyso'r safonau hyn, caiff y defnydd o'r Gymraeg ei hyrwyddo a'i hwyluso, a bydd y darparwr gwasanaeth yn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Mae'r safonau llunio polisi a nodir yn Atodlen 2 hefyd yn berthnasol i'r graddau y bydd Llywodraeth Cymru, wrth wneud y penderfyniad polisi i ddewis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel dewis ddarparwr, wedi (i) ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a (ii) gofalu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r pedwar opsiwn dan sylw.

Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru sefydlu trefniadau i ymgeisydd gael apelio yn erbyn dyfarniad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi os yw'r ymgeisydd wedi dilyn llwybr adolygu'r dyfarniad. Gall yr ymgeisydd hefyd apelio yn

erbyn cosb neu swm y gosb, neu'r ddau. Caiff yr apêl ei chyflwyno i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Ni fydd Safonau'r Gymraeg y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw yn berthnasol i Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth wrando apelau cymhwysra. Y rheswm am hyn yw nad yw Tribiwnlysoedd, wrth wrando apelau, yn gwneud hynny ar ran y sawl sy'n gwneud penderfyniad. Maent yn gwneud hynny fel rhan o ddyletswydd statudol a'u rôl farnwrol, yn annibynnol ar y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa.

Bydd Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn ddarostyngedig i Gyfarwyddyd Ymarfer - Defnyddio'r Gymraeg yn Nhribiwnlysoedd Cymru, o dan adran 23 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae'r Gyfarwyddyd Ymarfer yn nodi mai ei ddiben yw adlewyrchu egwyddor Deddf 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid yn y cyfnod yn arwain at weithredu'r Cynnig yn gynnar ac mewn perthynas â'r Bil. Y prif rhanddeiliaid yw:

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Rhieni

Darparwyr gofal plant, gan gynnwys darpariaeth yn Gymraeg
Y Mudiad Meithrin - sefydliad gwirfoddol sy'n arbenigo mewn darpariaeth
blynyddoedd cynnar yn Gymraeg

CWLWM⁵

Awdurdodau Lleol

Y Comisiynydd Plant

Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol

Comisiynydd y Gymraeg

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Estyn

Adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adrannau eraill Llywodraeth Cymru

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnod.

(Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)

Amherthnasol

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

ee. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestrau rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor?

⁵Mae Cwlwm yn cynnwys pum sefydliad, gyda'r Mudiad Meithrin yn arwain. Aelodau Cwlwm yw Clybiau Plant Cymru, y Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru.

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) Yn dilyn trafodaethau ag Uned y Gymraeg, cydweithwyr mewnol eraill a rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi nodi'r ddau gam gweithredu a ganlyn:

- Wrth ddatblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysra byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio mewn unrhyw system ar-lein yn blaen ac yn hawdd ei deall (yn Gymraeg ac yn Saesneg).
- Byddwn hefyd yn ystyried sut y gall awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni wedi cael digon o wybodaeth am yr opsiwn i ddewis darpariaeth cyfrwng Gymraeg pan fyddant yn cael gwybod eu bod yn gymwys i gael y Cynnig.

CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

- Bydd yn cynnig cyfleoedd i siaradwyr Gymraeg a/neu ddysgwyr ddefnyddio'r iaith wrth wneud cais am ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth.
- Mae'n bosibl y gall godi proffil y Gymraeg a hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.
- Bydd yn cynyddu'r defnydd o gyfryngau digidol yn Gymraeg, gan ei gwneud yn bosibl i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn mwy o sefyllfaoedd fel rhan o'u bywyd dydd i ddydd.

Effeithiau negyddol:

Cymerir camau i weithio gyda'r darparwr gwasanaethau i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfedd y darparwr â Safonau'r Gymraeg. Bydd gofynion Gweinidogion Cymru o ran y Gymraeg yn cael eu nodi fel rhan o'r cytundeb ffurfiol a fydd yn cael ei sefydlu â'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Gymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Drwy greu system ddwyieithog a'i gwneud yn bosibl i rieni wneud cais ar-lein neu ar y ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg, bydd y polisi yn hybu defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Rhodddwyd ystyriaeth i waith ymchwil a gwblhawyd gan CThEM ar agweddau rhieni at geisiadau am Ofal Plant Di-dreth, a ddangosodd fod rhieni am gael system syml a hawdd i'w defnyddio, a gwybodaeth glir am y cymorth sydd ar gael iddynt⁶.

Nododd ein rhanddeiliaid y pwysigrwydd o sicrhau bod y system arlein ar gael mewn iaith blaen a hygyrch er mwyn annog cymaint â phosibl o siaradwyr Gymraeg i gyflwyno cais trwy gyfrwng y Gymraeg.

⁶https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/293081/TFC_online_questionnaires_summary_of_responses.pdf

O Arolwg Cenedlaethol Cymru, gwyddom fod allgau digidol yn gymharol isel (15%) ymysg oedolion yn gyffredinol (16+), ond yn uwch ymysg pobl anabl (25%) a phobl 50 oed a throsodd (27%)⁷. Gan gydnabod hyn, wrth weithredu'r Bil ni fyddwn yn gofyn i'r system ymgeisio fod ar-lein yn llwyr ac mae trefniadau ar droed ar gyfer dull o ymgeisio all-lein, gyda llinell ffôn ddwyieithog yn cynnig cymorth i rieni gwblhau ceisiadau.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?	Cadarnhaol:	<input checked="" type="checkbox"/>
	Negyddol:	<input type="checkbox"/>
	Niwtral:	<input type="checkbox"/>
	Anhysbys:	<input type="checkbox"/>

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol	<input checked="" type="checkbox"/>
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu ar gyfer y Bil sy'n ceisio adeiladu ar yr ymgysylltu helaeth sydd eisoes wedi digwydd mewn perthynas â'r Cynnig ei hun.

Hyd yma, cafwyd trafodaethau ynghylch cynnwys y Bil â'r isod:

- **Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar** - Dechreuodd y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar ym mis Medi 2017 yn Sir Fôn, Gwynedd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Ers Medi 2018, mae Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Wrecsam a Conwy a Thorfaen wedi ymuno â'r awdurdodau hyn, ac ymunodd Caerdydd ym mis Hydref 2018. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynnig mewn awdurdodau eraill yn 2019. Gofynnwyd barn rhai o'r awdurdodau lleol hyn ar ymarferoldeb sefydlu un system genedlaethol ar gyfer gwneud cais, a defnyddiwyd eu sylwadau i greu'r opsiynau a ystyriwyd, gan gynnwys yr angen i ddarparu system gwbl ddwyieithog.
- **Sefydliadau Ambarél** - mae pum sefydliad ambarél ar gyfer y sector gofal plant, wedi'u tynnu ynghyd mewn un grŵp o'r enw Cwlwm⁸. Rhannwyd y newyddion diweddaraf ynghylch hynt gweithredu'r Cynnig yn gynnar â Cwlwm a gofynnwyd eu barn ynglŷn â sefydlu un system genedlaethol ar gyfer gwneud cais. Roedd

⁷ Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru - <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey>

⁸ Mae Cwlwm yn tynnu'r pum sefydliad pwysicaf o ran gofal plant yng Nghymru at ei gilydd i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n ceisio sicrhau y canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru. Dyma sefydliadau partner Cwlwm: Y Mudiad Meithrin; Clybiau Plant Cymru Kids' Club; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru; Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru) a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru.

eu barn hefyd yn berthnasol i ddatblygu system ar gyfer talu'r darparwyr gofal plant. Eto, roeddynt yn cydnabod yr angen i ddarparu system gwbl ddwyieithog ac yn cefnogi hynny.

- **Rhanddeiliaid allweddol** - yn ogystal â Cwlwm, mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant yn cynnwys cynrychiolwyr o'r All-Wales Group of Childcare Providers (AWARE); Dechrau'n Deg Cymru Gyfan; AGC; Estyn; y Comisiynydd Hawliau Plant; Plant yng Nghymru; Mentrau Iaith; Comisiynydd y Gymraeg; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwahoddwyd y grŵp hwn i drafod opsiynau ar 23 Tachwedd 2017 ar gyfer gwirio cymhwystra yn y dyfodol a diben y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), ac maent wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y Bil ers hynny. Roeddent yn gefnogol i ddarparu system gwbl ddwyieithog.
- **Adrannau Llywodraeth y DU** - wrth ddrafftio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sydd wedi ymrwymo i ddarparu system gwbl ddwyieithog ar gyfer gwneud ceisiadau a gwirio cymhwystra. Trafodwyd y Bil hefyd â Swyddfa Cymru, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Addysg mewn perthynas â'r data sydd i'w rannu â Llywodraeth Cymru yn ogystal â gwersi a ddysgwyd o'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r cynllun cymhwystra estynedig yn Lloegr.

Dyma rai o'r negeseuon sy'n deillio o ymgysylltu â rhanddeiliaid:

- Pwysigrwydd bod unrhyw system genedlaethol ar gyfer gwneud ceisiadau a gwirio cymhwystra ar gael yn Gymraeg a bod yr iaith a ddefnyddir yn Gymraeg clir (a Saesneg clir),
- Pan fo rhieni wedi'u barnu'n gymwys i gael y Cynnig, dylid tynnu eu sylw at yr opsiwn o ddewis gofal plant cyfrwng Gymraeg i'w plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg, yn ôl y gofyn, i sicrhau bod y system yn cefnogi hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cyfrannu at hynny.

CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI; PARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd mewn perthynas â'r Gymraeg?

Byddwn yn ystyried y sylwadau a wnaed ynghylch yr angen i ddefnyddio iaith glir wrth ddatblygu'r system genedlaethol ar gyfer gwneud cais a gwirio cymhwystra a byddwn yn sicrhau bod canllawiau digonol ar gael i awdurdodau lleol o ran codi ymwybyddiaeth rhieni fod gofal plant ar gael yn Gymraeg.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Rydym yn mynd ati i gasglu unrhyw wersi a ddysgwyd oddi wrth y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd o ran ymgeisio a gwirio cymhwystra er mwyn gweithredu'r Cynnig

yn gynnar. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a'i roi ar waith yn y dyfodol. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd yn ystyried sylwadau ynghylch y prosesau ymgeisio a weinyddir ganddynt ar ran Gofal Plant di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr o 30 awr.

Bydd modd i ymgeiswyr roi adborth ar sut mae'r system newydd ar gyfer gwneud cais a gwirio cymhwystra'n gweithio, unwaith y bydd wedi'i chyflwyno. Bydd sylwadau'n cael eu monitro'n ofalus. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio sicrhau bod digon o wybodaeth rheoli'n cael ei chasglu mewn perthynas â defnyddio nodweddion Cymraeg y system newydd a bodlonrwydd â'r system yn gyffredinol.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, rydym yn gynnar iawn yn y broses o ddatblygu system genedlaethol ar gyfer gwneud cais a gwirio cymhwystra ac nid yw'r ffordd orau o fonitro a gwerthuso wedi'i sefydlu hyd yn hyn. Bydd unrhyw waith monitro a gwerthuso yn cynnwys ystyried elfen cyfrwng Cymraeg y gwasanaeth ynghyd ag unrhyw wers y gellir ei dysgu er mwyn gwella darpariaeth yn y dyfodol.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus yn deillio o werthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Amherthnasol

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

****Dilëwch fel sy'n briodol:***

***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw: Catrin Davies

Adran: Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad(au): 20 Tachwedd 2018

Llofnod:

Dyddiadau adolygu:

Ar yr amod bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol ar ddechrau 2019, nid oes cynlluniau i gynnal unrhyw adolygiadau pellach.

Bydd asesiadau effaith integredig ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil hwn ac mewn cysylltiad â'r Cynnig Gofal Plant yn fwy cyffredinol.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o ddatblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd Owain Lloyd (Uwch Swyddog Cyfrifol)	Dyddiad 20 Tachwedd 2018
Llofnodwyd (Uwch Swyddog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Swyddog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Swyddog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu